Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

RHYDDID GWYBODAETH

DOGFEN BOLISI

Tachwedd 2004

Fersiwn 0.1

Rhestr Gynnwys

		Tudalen
1.	**Cyflwyniad**	1
2.	**Cyfrifoldeb am y Ddeddf**	1
3.	**Cynllun Cyhoeddiadau'r Cyngor**	1
4.	**Ceisiadau am Wybodaeth**	2
5.	**Ffioedd**	3
6.	**Eithriadau**	3
7.	**Polisïau/Gweithdrefnau Eraill**	3
8.	**Cwynion**	4
9.	**Cysylltiadau**	5

1. Cyflwyniad

1.1 Bydd Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("y Ddeddf") yn dod i rym yn llawn ar 1 Ionawr 2005. Amcan y Ddeddf yw gwneud cyrff cyhoeddus yn fwy agored ac atebol drwy greu hawl i unrhyw un ofyn am unrhyw wybodaeth a ddelir ganddynt (yn amodol ar eithriadau).

1.2 Fel corff cyhoeddus, mae'r Cyngor yn destun y Ddeddf ac yn ymroddedig i gydymffurfio â hi. Mae'r ddogfen bolisi hon yn gosod allan gobeithion y Cyngor o ran y ddeddf a'r trefniadau sydd ganddo i gydymffurfio â hi.

2. Cyfrifoldeb am y Ddeddf

2.1 Prif Swyddog Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant y Cyngor sy'n gyffredinol gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r ddeddf er bod pob prif swyddog yn gyfrifol am gydymffurfio â'r ddeddf yn eu hadrannau nhw. Mae swyddog rhyddid gwybodaeth penodedig ym mhob adran y Cyngor. Gofynnir i bob aelod o staff wybod am y ddeddf, ei gofynion a threfniadau'r Cyngor o ran cydymffurfio â hi.

2.2 Yr Archifydd/Rheolwr Cofnodion sydd â chyfrifoldeb am gydlynu materion rhyddid gwybodaeth o ddydd i ddydd, gan gynnwys ceisiadau dan y ddeddf a chynnal cynllun cyhoeddiadau'r Cyngor.

2.3 Mae'r Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth yn darparu cyngor cyfreithiol i'r Cyngor ar faterion rhyddid gwybodaeth.

3. Cynllun Cyhoeddiadau'r Cyngor

3.1 Mae Cynllun Cyhoeddiadau'r Cyngor yn rhestru'r wybodaeth sydd ar gael gan y Cyngor, mae'n dweud ble gellid cael y manylion hyn ac a oes ffi am ddarparu'r manylion hyn.

3.2 Cymeradwywyd y Cynllun Cyhoeddiadau gan y Comisiynydd Gwybodaeth ac mae'r Cyngor yn gorfod ei ddiweddaru'n rheolaidd a'i gynnig i'r cyhoedd.

3.3 Mae'r Cynllun Cyhoeddiadau ar gael ar wefan y Cyngor, sef www.wrexham.gov.uk/foi/index.htm. Mae copïau papur ar gael o swyddfeydd y Cyngor a Llyfrgell Wrecsam.

4. Ceisiadau am Wybodaeth

4.1 O 1 Ionawr 2005, gall unrhyw un ofyn am unrhyw wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei dal (yn amodol ar eithriadau).

4.2 Bydd yr Archifydd/Rheolwr Cofnodion yn cydlynu ceisiadau am wybodaeth nad yw ar gael drwy'r Cynllun Cyhoeddiadau. Rhaid i bob cais fod yn ysgrifenedig. Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu ffurflen gais a thaflen gyfarwyddyd i helpu ymgeiswyr i wneud cais a rhoi gwybod iddynt sut yr ymdrinnir â'r cais. Mae'r ffurflen ar gael ar wefan y Cyngor, o swyddfeydd y Cyngor neu gan yr Archifydd/Rheolwr Cofnodion.

4.3 Bydd y Cyngor yn gwneud ei orau i ddarparu cyngor a chymorth i bawb sy'n gwneud cais dan y ddeddf. Bydd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn fformatiau eraill, lle bo'u hangen. Fodd bynnag, nid oes raid iddo ddelio â ceisiadau ailadroddol neu flinderus.

4.4 Yn y rhan fwyaf o achosion, rhaid i'r Cyngor ddelio â cheisiadau o fewn 20 diwrnod gwaith. Lle mae'r Cyngor yn ystyried y prawf budd cyhoeddus sy'n ofynnol gan rai eithriadau (paragraff 6), mae'n rhaid iddo ymdrin â'r ceisiadau hyn o fewn amser rhesymol. Lle dyma'r achos a'i fod yn debygol o gymryd mwy nag 20 diwrnod gwaith i ddod i benderfyniad, bydd y Cyngor yn hysbysu'r ymgeisydd ac yn cynnig amcangyfrifiad o'r dyddiad y disgwylia ddelio â'r cais.

5. Ffioedd

5.1 Darperir y rhan fwyaf o'r wybodaeth am ddim. Fodd bynnag, gall y Cyngor godi ffi os yw'r gost o ddelio â chais yn fwy na'r ffigwr a osodwyd ar gyfer y pwrpas hwn gan reoliadau. Bydd swm y ffioedd sy'n daladwy'n unol â'r rheoliadau hynny. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor hawl i godi am ddostaliadau (e.e. llungopio, tal post) wrth ddelio gyda ymholiadau.

5.2 Ni fydd y Cyngor yn codi ffi os yw'n penderfynu peidio â datgelu'r wybodaeth oherwydd iddi gael ei heithrio dan y ddeddf (paragraff 6).

6. Eithriadau

6.1 Mae nifer o eithriadau yn y ddeddf sy'n darparu amgylchiadau lle gall y Cyngor wrthod datgelu gwybodaeth e.e. gwybodaeth sy'n destun y Ddeddf Gwarchod Data. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried eithriadau'n ofalus ac, mewn rhai amgylchiadau, rhaid iddo ddefnyddio'r prawf budd cyhoeddus h.y. ystyried a yw er budd y cyhoedd i ddatgelu neu wrthod datgelu gwybodaeth. Os yw'r Cyngor yn peidio â datgelu gwybodaeth oherwydd y creda ei bod wedi ei heithrio dan y ddeddf, bydd y Cyngor yn hysbysu'r sawl sydd wedi gofyn am y wybodaeth pam ei fod yn teimlo bod angen eithrio'r wybodaeth.

6.2 Mae'r Cyngor wedi sefydlu panel eithriadau, sy'n cynnwys y Prif Swyddog Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant, y Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth, y Prif Gyfreithiwr (Corfforedig) a'r Swyddog Diwylliant/Treftadaeth. Gall lleiafswm o ddau aelod o'r panel wneud penderfyniad os yw'r Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth neu'r Prif Gyfreithiwr (Corfforedig) yn bresennol. Mae'r panel eithriadau'n penderfynu a ddylid datgelu gwybodaeth neu beidio o ganlyniad i geisiadau penodol.

7. Polisïau/Gweithdrefnau Eraill

7.1 O bryd i'w gilydd, bydd y Cyngor yn cynhyrchu polisïau a gweithdrefnau eraill sy'n ymwneud â materion rhyddid gwybodaeth i ategu at y datganiad polisi cyffredinol hwn.

8. Cwynion

8.1 Ymdrinnir ag unrhyw gwynion am y ffordd y mae'r Cyngor wedi trin mater rhyddid gwybodaeth dan weithdrefn cwynion gorfforedig y Cyngor sydd â thri cham iddi. Mae ffurflenni cwyno ar gael o swyddfeydd y Cyngor, drwy'r Cynllun Cyhoeddiadau neu o wefan y Cyngor.

8.2 Yn y lle cyntaf, dylai achwynwyr drafod eu pryderon gyda'r Archifydd/Rheolwr Cofnodion (manylion cyswllt isod). Os yw unrhyw achwynwyr yn anfodlon â chanlyniad y trafodaethau hyn, gallant fynd â'r mater ymhellach drwy gysylltu â swyddog cwynion yr Adran Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant ar 01978 297437 a fydd yn ystyried y gwyn eto. Os na ddatrysir y mater, bydd rheolwr cefnogi archwiliadau'r Cyngor yn trefnu i ymchwilio i'r mater (rhif ffôn 01978 292257).

8.3 Mae'r Cyngor yn anelu at ddelio â chwynion o fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn cwynion.

8.4 Os yw ymgeiswyr yn anfodlon â chanlyniad y weithdrefn uchod, gallant gwyno'n uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer SK9 5AF
Ffôn: 01625 545700
www.informationcommissioner.gov.uk

Bydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn gofyn i achwynwyr ymdrin â'r mater drwy weithdrefn cwynion y Cyngor yn gyntaf (gweler uchod) cyn iddo benderfynu ar y mater ei hun.

8.5 Gellir apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd Gwybodaeth ger bron tribiwnlys gwybodaeth.

9. Cysylltiadau

Archifydd/Rheolwr Cofnodion
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Amgueddfa Wrecsam
Stryt y Rhaglaw
Wrecsam
LL11 1RB

Ffôn: 01978 317976

e-bost foi.@wrexham.gov.uk